

**RHEOLIADAU CYFRIFON AC ARCHWILIO (CYMRU) 2014**

**CYFRIFON CYNGOR GWYNEDD  
CYFRIFON CYD-BWYLLGOR BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD  
CYMRU  
CYFRIFON CYD-BWYLLGOR GWE**

**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023**

Mae rheoliad 10(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyngor Gwynedd lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac ardystio ei fod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi ac o incwm a gwariant y corff hwnnw ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2023.

Dangosir yr amserlen statudol 2022/23 yn y tabl isod ynghyd â'r amserlen estynedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

	<b>Amserlen Statudol</b>	<b>Amserlen Estynedig</b>
Datganiad o Gyfrifon Drafft	31 Mai 2023	31 Gorffennaf 2023
Datganiad o Gyfrifon yn dilyn Archwiliad	31 Gorffennaf 2023	31 Rhagfyr 2023

Nid yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi llofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. Mae hynny oherwydd yr angen i ddatrys materion technegol yn ymwneud â safonau cyfrifeg yn ogystal â'r her flynyddol o gwblhau'r cyfrifon a'r nodiadau cefnogol angenrheidiol o fewn yr amserlen statudol. Byddwn yn gweithio o fewn y terfynau amser estynedig.

Dyddiedig: 26 Mai 2023